

## Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

---

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Ebrill 2018

Amser: 14.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)

### – Brif Atodol

---

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

#### 11 Bil yr UE (Ymadael): Sesiwn dystiolaeth 2 – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

15.30

(Tudalennau 1 – 29)

Mark Drakeford AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

CLA(5)–13–18 – Cwestiynau posibl

CLA(5)–13–18 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru

CLA(5)–13–18 – Papur Briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil ar y Datblygiadau Diweddaraf

CLA(5)–13–18 – Crynodeb Cyfreithiol: Gwelliannau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) o Gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL  
(MEMORANDWM RHIF 2)**

**BIL YR UNDEB EWROPEAIDD (YMADAEL)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.

Cyflwynwyd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2017. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil (HL Bill 79 fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷr Arglwyddi) ar 18-01-2018 a gellir ei gweld yn [Bill documents — European Union \(Withdrawal\) Bill 2017-19 — UK Parliament](#)

**Amcan(ion) Polisi**

2. Yr amcan polisi sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw sicrhau bod y DU yn ymadael â'r UE gyda chymaint o sicrwydd, dilyniant a rheolaeth â phosibl. Mae'n anelu at roi terfyn ar oruchafiaeth cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (“yr UE”) yng nghyfraith y DU ac at drosi cyfraith yr UE fel y saif adeg ymadael yn gyfraith ddomestig. Mae'r Bil hefyd yn creu pwerau dros dro i'r Gweinidogion wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi i gywiriadau gael eu gwneud i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol fel arall ar ôl i'r DU ymadael, er mwyn i'r system gyfreithiol ddomestig barhau i weithredu'n gywir y tu allan i'r UE. Mae'r Bil hefyd yn galluogi i gyfraith ddomestig adlewyrchu cynnwys cytundeb ymadael o dan Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Crynodeb o'r Bil**

3. Noddir y Bil gan yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
4. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi barn Llywodraeth y DU fod y Bil yn cyflawni pedair prif swyddogaeth. Mae:
  - yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;
  - yn trosi cyfraith yr UE fel y saif adeg ymadael yn gyfraith ddomestig cyn i'r DU ymadael â'r UE;
  - yn creu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys pwerau dros dro i alluogi i gywiriadau gael eu gwneud i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol fel arall ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac i roi cytundeb ymadael ar waith; ac

- yn cadw cwmpas presennol pwerau datganoledig ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn meysydd a lywodraethir gan gyfraith yr UE ar hyn o bryd.

### **Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

5. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil (fel y'i cyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2017) ar 12 Medi 2017, yn seiliedig ar y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU. Roedd y Memorandwm yn cadarnhau na fyddai modd i Lywodraeth Cymru argymhell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i drafftwyd ar y pryd.
6. Ers i'r Memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi, mae'r Bil wedi cael ei ddiwygio yn ystod y cyfnod craffu yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn nodi'r newidiadau hynny yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad iddynt. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r cymalau a ddiwygiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae Atodiad 2 yn rhestru gwelliannau'r llywodraeth a gyflwynwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ynghyd ag un gwelliant anllywodraethol y cytunwyd arno.
7. Mae'n rhaid cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau neu welliannau a restrir yn y ddau atodiad naill ai oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
8. Roedd gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac a arweiniodd wedi hynny at hyrwyddo yn Nhŷ'r Cyffredin welliannau arfaethedig a baratowyd ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, yn ymwneud â phedwar mater yr aed i'r afael yn sylweddol â phob un ohonynt yn y gwelliannau a wnaed neu a gynigiwyd i'r Bil neu'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn gysylltiedig ag ef ac a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill:
  - Y posibilrwydd y gellid defnyddio pwerau Gweinidog y Goron i wneud cywiriadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru: mae'r pŵer hwn wedi'i ddileu mewn perthynas â Chymal 7 (ac mae Cymal 8 yn cael ei ddileu yn gyfan) a'r newidiadau angenrheidiol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a baratowyd mewn cysylltiad â nyini ein hunain, wedi cael eu cynnwys ar wyneb y Bil;
  - Y ffaith lle y bo Gweinidogion y Goron yn arfer pwerau cydamserol i 'ymestyn drosodd' a gwneud cywiriadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, nid oedd yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru: er nad yw'r Bil wedi cael ei ddiwygio, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn glir na fydd Gweinidogion y DU fel arfer yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru lle y bo Gweinidogion y DU yn deddfu ar faterion y gall Gweinidogion Cymru ddeddfu arnynt, ymgymeriad sy'n gyfwerth â gofynion Confensiwn Sewel;

- Y cyfyngiadau newydd ar gymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol a gynigiwyd o dan Gymal 11; mae'r Cymal hwn yn cael ei ddiwygio'n sylweddol i'w gwneud yn glir mai dim ond pan fo rheoliadau wedi cael eu gwneud yn dilyn penderfyniad cadarnhaol Senedd y DU, ac fel arfer dim ond gyda chydysyniad y Cynulliad Cenedlaethol, y cyflwynir unrhyw gyfyngiadau newydd ar gymhwysedd. Bydd terfynau amser yn gysylltiedig â'r rhain a byddant yn ymwneud yn benodol â meysydd lle y cytunwyd bod angen fframweithiau ar gyfer y DU gyfan a lle y mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn gwneud ymrwymiad clir a chyfwerth na fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Lloegr yn y meysydd hyn gydol y cyfnod y bydd unrhyw gyfyngiadau ar y deddfwrfeydd datganoledig yn gymwys;
  - Graddau'r cyfyngiadau a roddir ar bwerau Gweinidogion Cymru i wneud cywiriadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, yn arbennig mewn perthynas â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, o'u cymharu â'r rheini ar Weinidogion y Goron: mae'r cyfyngiad cyffredinol ar Weinidogion Cymru yn cywiro cyfraith uniongyrchol yr UE yn cael ei ddileu, a dim ond mewn meysydd lle y mae rheoliadau wedi cael eu gwneud o dan Gymal 11 y bydd cyfyngiad yn gymwys yn awr. Mae'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i geisio cydsyniad Gweinidogion y Goron wrth wneud mathau penodol o gywiriadau mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli wedi cael ei ddisodli gan ofyniad i ymgynghori.
9. Gwnaed datganiad llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 25 Ebrill yn rhoi'r diweddaraf i'r Cynulliad ar y datblygiadau mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) [ [Llywodraeth Cymru | Datganiad Llafar - Bil yr Undeb Ewropeaidd \(Ymadael\)](#) ]. Roedd y datganiad yn rhoi mwy o fanylion pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo y gallai gymeradwyo'r Cytundeb Rhynglywodraethol a'r gwelliannau yn gysylltiedig ag ef i'r Aelodau.

### **Craffu ar bwerau is-ddeddfwriaeth Gweinidogion Cymru**

10. Roedd paragraffau 19-21 o'r Memorandwm cyntaf yn disgrifio'r trefniadau craffu a fyddai'n gymwys i'r bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru drwy gymal 10 ac Atodlen 2. ( <http://www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld11177/lcm-ld11177-e.pdf> ) Mae'r darpariaethau perthnasol hyn wedi cael eu diwygio i adlewyrchu dilead y pŵer i sefydlu awdurdod cyhoeddus a dilead y pŵer i wneud rheoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â rhwymedigaethau rhyngwladol.
11. At hynny, mae Atodlen 7 wedi cael ei diwygio i ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgor sifftio y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod fersiwn ddrafft o'r rheoliadau y maent yn ystyried y dylent fod

yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bydd y pwyllgor sifftio yn gwneud argymhelliad wedi hynny ynglŷn â'r weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau dan sylw.

12. Mae'r gwelliannau perthnasol yn cael eu disgrifio ymhellach yn Atodiad 2.

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

13. Fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm cyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig eglurder a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau wrth inni ymadael â'r UE. Rydym yn derbyn mewn egwyddor yr angen am ddarpariaethau sy'n trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, a darpariaethau sy'n creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth, i wneud cywiriadau i'r cyfreithiau na fyddent bellach yn gweithredu'n briodol fel arall ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno hefyd mai Senedd y DU a ddylai wneud deddfwriaeth o'r fath yn ddelfrydol, a hynny ar ran y DU gyfan, gan mai hyn fyddai'n cynnig y mesur gorau o gysondeb a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

14. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ei ddatganiad llafar ar 25 Ebrill, o'u hystyried gyda'i gilydd, fod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, a'r Cytundeb Rhynglywodraethol cysylltiedig [ [Intergovernmental Agreement on the European Union \(Withdrawal\) Bill - GOV.UK](#) ] a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill, yn ddigon i alluogi Llywodraeth Cymru i argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil.

### **Casgliad**

15. Mae'r memorandwm atodol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ers ei gyflwyno y mae'n ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad iddynt, ac mae'n cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru i argymhell y cydsyniad hwnnw yn awr i'r Cynulliad.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**  
**Prif Weinidog Cymru**  
**Ebrill 2018**

**ATODIAD 1 – MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL YR UNDEB EWROPEAIDD (YMADAEL) – CYMALAU SY’N GOFYN AM GYDSYNIAD – GWELLIANAU A WNAED YN NHŶ’R CYFFREDIN**

<b>Cymal neu Atodlen a ddiwygir</b>	<b>Effaith</b>
Cymal 7(2) (Yn mynd i'r afael â diffygion yn deillio o ymadael).	Yn diffinio cwmpas pwerau Gweinidog y Goron i unioni diffygion mewn cyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â rhestr gynhwysfawr.
Cymal 7(3) (Yn mynd i'r afael â diffygion yn deillio o ymadael).	Yn darparu bod diffyg mewn cyfraith yr UE a ddargedwir mewn amgylchiadau lle y bo Gweinidog y Goron yn ystyried ei fod o gategori tebyg i unrhyw ddiffyg sy'n dod o fewn Cymal 7(2) neu sydd o fath a ddisgrifir mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidog y Goron, neu y darperir ar ei gyfer mewn rheoliadau o'r fath.
Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 1(3) (Pŵer i fynd i'r afael â diffygion).	Yn cadarnhau bod y gofynion yng nghymalau 7(2) i (9) yn gymwys at ddibenion rheoliadau a wnaed gan awdurdod datganoledig o dan Ran 1 o Atodlen 2 ac eithrio'r cyfeiriad at Weinidog y Goron yng nghymal 7(3)(b).
Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 5 (Gofyniad i ymgynghori mewn amgylchiadau penodol).	Yn dileu'r cyfyngiad sy'n atal awdurdod datganoledig rhag gwneud rheoliadau i unioni diffygion heb gydsyniad Gweinidog y Goron, drwy roi yn ei le ofyniad i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.
Atodlen 8, Rhan 4, paragraff 27(5) a (6) (Dargadw cyfraith yr UE bresennol).	Yn darparu eithriad o baragraff 3 o Atodlen 1 sy'n darparu nad oes unrhyw hawl i weithredu mewn cyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael neu wedi hynny, yn seiliedig

	<p>ar fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Mae paragraff 27(5) yn caniatáu i heriau cyfreithiol penodol ynglŷn â dilysrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir gael eu cyflwyno ar yr amod bod y rhain yn ymwneud â rhywbeth a ddigwyddodd cyn y diwrnod ymadael, a'u bod yn cael eu gwneud cyn pen tri mis o'r diwrnod ymadael.</p>
--	---



**ATODIAD 2 – MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL YR UNDEB EWROPEAIDD (YMADAEL) – CYMALAU SY’N GALW AM GYDSYNIAD – GWELLIANNAU A GYFLWYNWYD AR GYFER CYFNOD ADRODD TŶ’R ARGLWYDDI A GWELLIANNAU ANLLYWODRAETHOL Y CYTUNWYD ARNYNT YNG NGHYFNOD ADRODD TŶ’R ARGLWYDDI**

**GWELLIANNAU’R LLYWODRAETH Y A GYFLWYNWYD AR GYFER CYFNOD ADRODD TŶ’R ARGLWYDDI**

Rhif y Cymal / Atodlen	Rhif y Gwelliant/ Gwelliannau	Pwnc y Gwelliant
Ar ôl Cymal 6	26	Cymal newydd sy'n darparu ar gyfer statws gwahanol categorïau o gyfraith yr UE a ddargedwir a sut y mae'r categorïau o gyfraith hynny i gael eu diwygio. Mae'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu rhwng prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (er enghraifft, rheoliad yr UE sy'n ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael ac wedi hynny o dan gymal 3) a mân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (unrhyw beth heblaw am brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir)
Cymal 7	32A, 32B, 33A a 34A - 34D	Mae'r gwelliannau yn cyfyngu ar arfer y pŵer mewn perthynas â diffygion yng nghymal 7 mewn ffyrdd penodol. Ni ellir arfer y pŵer i sefydlu awdurdod cyhoeddus, gorfodi na chynyddu ffioedd na diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyfyngiadau hynny hefyd yn gymwys i bŵer gwneud rheoliadau cyfwerth Gweinidogion Cymru yn Rhan 1 o Atodlen 2 (paragraff 1).
Cymal 11	89DA	Roedd y cymal gwreiddiol yn gosod cyfyngiad eang ar gymhwysedd y Cynulliad a fyddai fel arfer wedi ei atal rhag addasu cyfraith yr UE a

		<p>ddargedwir (yn amodol ar eithriadau penodol). Mae darpariaeth newydd wedi disodli Cymal 11 sydd dim ond yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad (a chymhwysedd y deddfwrfeydd datganoledig eraill) mewn amgylchiadau lle y bydd Gweinidog y Goron wedi gwneud rheoliadau yn rhagnodi disgrifiad o gyfraith yr UE a ddargedwir na all y Cynulliad ei haddasu.</p> <p>Ni ddylai Gweinidog y Goron wneud unrhyw reoliadau oni bai bod y Cynulliad wedi gwneud penderfyniad cydsynio mewn perthynas â gosod y drafft, neu hyd nes y bydd cyfnod o 40 o ddiwrnodau wedi mynd heibio heb i'r Cynulliad fod wedi gwneud penderfyniad o'r fath.</p> <p>Mae pŵer Gweinidog y Goron i wneud rheoliadau yn gyfyngedig i gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau ar y diwrnod ymadael a chaiff unrhyw reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer eu dirymu ar ôl cyfnod o bum mlynedd, gan ddechrau ar yr adeg y daeth y rheoliadau i rym.</p>
Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau newydd 3A a 23A	89ZZD	Yn gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd Gweinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir wrth arfer y pwerau i gywiro diffygion mewn cyfraith yr UE a ddargedwir (3A) ac i weithredu'r cytundeb ymadael (23A). Mae hyn yn cynnwys addasiadau a fyddai'n torri adran 109A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe byddai'r darpariaethau yn cael eu gwneud mewn Deddf y Cynulliad.
Atodlen 2, Rhan 3, paragraff 21(4)	89B	Mae'r gwelliant yn atal awdurdod datganoledig rhag arfer y pŵer i weithredu'r cytundeb ymadael i sefydlu awdurdod cyhoeddus.
Atodlen 2, Rhan	89D	Yn diwygio'r diffiniad o gymhwysedd

3, paragraff 28		datganoledig sydd i'w gymhwyso i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i weithredu'r cytundeb ymadael o dan Ran 3 o Atodlen 2.
Atodlen 3, Rhan 1, paragraff 2	92AB	Darpariaeth wedi'i diwygio i adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed i gymal 11. Mae hyn yn cynnwys na fydd gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd i wneud, cadarnhau na chymeradwyo is-ddeddfwriaeth mewn amgylchiadau lle y mae'r gyfraith sy'n cael ei haddasu yn un a ddisgrifir mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidog y Goron.
Atodlen 3, Rhan 2, paragraff newydd 36A	92DB	Gwelliant yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 157ZA) sy'n darparu bod datganiadau esboniadol i'w darparu mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidog y Goron o dan adran 80(8) neu 109A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
Atodlen 3, Rhan 2, paragraff newydd 39A	92E	Yn diwygio'r cymal cadw nôl mewn perthynas â safonau technegol yn Rhan 2 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran C7, paragraff 77).
Atodlen 7, Rhan 1, paragraff newydd 3A	70C	Mae paragraff 3A yn gwneud darpariaeth i Bwyllgor y Cynulliad sifftio rheoliadau penodol yn ymwneud â Gweinidogion Cymru sy'n destun y weithdrefn negyddol mewn amgylchiadau lle y mae'r rheoliadau wedi cael eu gosod gerbron y Cynulliad, ynghyd â memorandwm yn nodi'r datganiad a'r rhesymau dros farn Gweinidogion Cymru. Ni ellir gwneud y rheoliadau oni bai bod Pwyllgor y Cynulliad naill ai wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn neu fod cyfnod o 14 o ddiwrnodau wedi mynd

		heibio heb i argymhelliad gael ei wneud.
Atodlen 7, Rhan 1, paragraff newydd 4B	72ZC	Mae paragraff 4B yn darparu eithriad o ddarpariaethau'r pwyllgor sifftio ym mharagraff 3A mewn perthynas â rheoliadau penodol a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn achosion brys.
Atodlen 7, Rhan 2, paragraff newydd 13A	77E	Yn darparu bod paragraff 3A (Pwyllgor y Cynulliad i sifftio rheoliadau yn ymwneud â Gweinidogion Cymru) yn gymwys i reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ran 3 o Atodlen 2.
Atodlen 7, Rhan 3, paragraff newydd 18A	82	Yn mewnosod paragraff newydd sy'n darparu ar gyfer arfer pwerau yn rhagflaeniadol mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. Mae'n darparu bod modd arfer unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf sy'n addasu cyfraith yr UE a ddargedwir cyn y diwrnod ymadael er mwyn i'r rheoliadau ddod i rym ar y diwrnod ymadael neu wedi hynny.
Atodlen 8, Rhan 1, paragraffau newydd 3A i 3F	111	Yn diffinio'r amgylchiadau lle y gellir arfer pwerau presennol penodol i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu ar gyfer y weithdrefn seneddol sydd i'w chymhwyso i'r is-ddeddfwriaeth dan sylw, sy'n dibynnu ar ffactorau megis categori'r gyfraith a ddargedwir a natur yr addasiad. Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio neu'n ddirymu unrhyw brif deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn destun yr un weithdrefn a fyddai'n gymwys gerbron Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig fel y byddai'n gymwys i'r deddfwriaeth honno pe byddai'n diwygio neu'n

		dirymu deddfwriaeth sylfaenol.
Atodlen 8, Rhan 1, paragraffau newydd 5A i 5C	112	Yn diffinio'r amgylchiadau lle y gellir arfer pwerau'r dyfodol i wneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir ac yn darparu ar gyfer y weithdrefn seneddol sydd i'w chymhwyso i'r is-ddeddfwriaeth dan sylw.
Atodlen 8, Rhan 1, paragraff newydd 5D	112A	Yn gosod gofyniad ar awdurdod perthnasol i ddarparu datganiad esboniadol ar gyfer offerynnau sy'n diwygio neu'n ddirymu rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i wneud datganiad pam, ym marn yr awdurdod perthnasol, fod "rhesymau da" dros ddiwygio neu ddirymu.

**GWELLIANNAU ANLLYWODRAETHOL Y CYTUNWYD ARNYNT YNG  
NGHYFNOD ADRODD TŶ'R ARGLWYDDI**

Cymal 5	15	Yn disodli Cymalau 5(4) a (5). Mae'r ddarpariaeth yn darparu bod y Siarter Hawliau Sylfaenol i ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael neu wedi hynny ac eithrio'r Rhaglith a Phennod V.
---------	----	---

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon